Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

24 Heol y Gadeirlan / Cathedral Road
Caerdydd / Cardiff CF11 9LJ
Ffôn / Tel: 029 20 320500
Ebost / Email: info@wao.gov.uk
www.wao.gov.uk

Mr Darren Millar AC
Cadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd CF99 1NA

Dyddiad: 26 Mawrth 2015
Ein Cyf: HVT/2300/fgb


Annwyl Darren

## CAFFAELIADAU TIR LLYWODRAETH CYMRU – FFORDD LINIARU'R M4

Ar 10 Tachwedd 2014 anfonoch e-bost ataf ynglŷn â ffordd liniaru'r M4. Mae'r adolygiad wedi cymryd yn hwy nag a ragwelwyd gan staff Swyddfa Archwilio Cymru yn rhannol oherwydd yr amser a gymerwyd i egluro a deall rhywfaint o'r data sylfaenol, ond rwyf bellach yn gallu rhoi ateb o sylwedd.

Yn eich e-bost gofynnwyd imi ystyried cynnal adolygiad gwerth am arian o'r caffaeliadau tir ar hyd y 'llwybr du'; a'r broses gwneud penderfyniadau ynglŷn â llwybr ffordd liniaru'r M4 yn y dyfodol.

Rwyf wedi penderfynu peidio â chynnal adolygiad gwerth am arian o'r caffaeliadau tir, nac adolygu'r broses gwneud penderfyniadau ynglŷn â'r llwybr. Rhan o'm rhesymeg dros beidio ag adolygu'r meysydd hyn yw ymchwiliad presennol y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus i werth am arian buddsoddi mewn traffyrdd a chefnffyrdd, sy'n rhoi'r cyfle i'r Pwyllgor drafod rhai o'r materion hyn â Llywodraeth Cymru yn uniongyrchol, boed yn benodol mewn perthynas â'r M4 neu'n fwy cyffredinol.

Fodd bynnag, fel y cynghorwyd i chi yn fy llythyr ar 26 Chwefror 2015, mae tîm archwilio ariannol Llywodraeth Cymru wedi ymchwilio i'r mater hwn o ran cyfrifon Llywodraeth Cymru, ac rwyf bellach yn gallu ymateb i chi gyda'u canfyddiadau.

Yn gyntaf, hoffwn gadarnhau:

- Ym 1995, cadarnhaodd y Swyddfa Gymreig fel yr oedd ar y pryd y llwybr a ffafriwyd ar y pryd ar gyfer y ffordd liniaru a chyflwynodd hysbysiad statudol (o'r enw 'TR111'). Mae'r hysbysiad statudol yn cyflwyno rheolau malltod statudol.
- Mae'r hysbysiad statudol yn parhau mewn bodolaeth er, fel rwyf yn sicr y byddwch yn gwybod, ers 1995 mae agweddau ar y ffordd wedi cael ystyriaeth bellach ac wedi bod yn destun ymgynghoriad cyhoeddus.

- Yn fwy diweddar, mae opsiynau Llywodraeth Cymru wedi cynnwys llwybrau a ddosbarthwyd fel y llwybrau ‘du’, ‘coch’ a ‘phorffor’. Ar ôl ymgynghoriad cyhoeddus rhwng 23 Medi 2013 ac 16 Rhagfyr 2013 ar y llwybrau hyn, ar 16 Gorffennaf 2014 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y llwybr du fel yr opsiwn a ffefrir. Ystyriodd yr adolygiad archwilio ariannol unrhyw gaffaeliadau sydd wedi'u lleoli ar hyd y tri llwybr.

Gallaf gadarnhau fy nealltwriaeth o'r canlynol:

- Rhwng mis Hydref 1980 a mis Mawrth 2013 gwnaeth Llywodraeth Cymru (neu gyrff rhagflaenol) gaffael 22 o gaffaeliadau, ac mae manylion am y rhain wedi'u hatodi i'r llythyr hwn. Cafodd y rhan fwyaf o'r eiddo hwn ei gaffael cyn datganoli a chafodd rhywfaint ei gaffael cyn hysbysiad statudol 1995. Felly cafodd eiddo o'r fath ei etifeddu gan Lywodraeth Cymru oddi wrth gyrff rhagflaenol.

- Byddwch yn nodi o'r atodiad bod y 22 o gaffaeliadau hyn werth tua £24 miliwn. Byddwch hefyd yn nodi bod saith o'r 22 o eiddo wedi eu gwerthu am gyfanswm pris gwerthu o tua £2 filiwm ac elw cyfunol (yn erbyn y pris prynu a dalwyd) o tua £83,000. Felly mae Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd yn berchen ar 15 o'r 22 o gaffaeliadau.

- Mae Llywodraeth Cymru yn y broses o gwblhau caffael dau eiddo domestig ar hyd y llwybr, ac mae ei swyddogion yn disgwyl cwblhau hyn cyn bo hir. Nid yw'r eiddo hyn wedi eu cynnwys yn yr eiddo yn yr atodiad am nad ydynt wedi eu caffael eto.

- O ran cost gyffredinol y ffordd liniaru, mae *Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru [Diweddariad o Lif Prosiectau Arfaethedig Rhagfyr 2014]* yn nodi bod cyfanswm o £1 biliwn o fuddsoddiad wedi'i gynllunio.

Gan droi yn fyr at y broses o wneud cais ar gyfer malltod, fy nealltwriaeth i yw bod, ar gam ystyried pa un ai i dderbyn cais am bryniad malltod *[* gweler y ddolen isod]*:

- Mae Llywodraeth Cymru yn cyfarwyddo Asiantaeth y Swyddfa Brisio (VOA) i ystyried effaith prisio cynllun ffordd ar yr eiddo unigol, er mwyn penderfynu ar y ganran ddibrisio ac i roi sylwadau ar a yw'r eiddo wedi'i farchnata am werth teg. Mae'r broses yn ymarfer prisio ‘pen desg’ a gynhelir gan y VOA ar y cam hwnnw.

*https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/402894/Your_property_and_blight__4_.pdf

- Os yw’r cais am falltod yn cael ei dderbyn, bydd Llywodraeth Cymru yn cyfarwyddo'r VOA i negodi ag asiant y gwerthwr i gael gwerth teg am yr eiddo ar y farchnad agored (yn seiliedig ar ‘fyd dim cynllun’). Mae'r broses hon yn ystyried canlyniadau archwiliad mewnol ac arolwg adeiladau.

Gobeithio y bydd yr ateb hwn yn ddefnyddiol ichi. Nid wyf wedi gofyn i staff Swyddfa Archwilio Cymru gynnal unrhyw waith archwilio pellach ar y ffordd liniaru, y tu hwnt i'r gwaith archwilio maent yn bwriadu ei gynnal fel rhan o archwilio Cyfrif Adnoddau Cyfunol Llywodraeth Cymru 2014 15

Yn gywir



**HUW VAUGHAN THOMAS**
**ARCHWILYDD CYFFREDINOL CYMRU**

*Amg: Atodiad: Eiddo Ffordd Liniaru’r M4*

## APPENDIX: M4 RELIEF ROAD - PROPERTIES

| Description of property | Price paid/ *Valuation* (1) £ | Date of acquisition (if known) | Reason for acquisition/inherited (3) | Sale price £ | Surplus/ (deficit) on sale (4) £ |
|---|---|---|---|---|---|
| Longhouse Farm, Coedkernew | 720,000 | 13/11/2006 | Re TR111 | - | - |
| Land at the Stud Farm | 315,000 | 27/01/2000 | Re TR111 | 450,000 | 135,000 |
| Undy House, Undy, Magor | 660,000 | 17/08/2007 | Re TR111 | - | - |
| Woodland House, Magor | 1,107,000 | 02/08/2007 | Re TR111 | - | - |
| Old Cottage, Knollbury, Magor | 130,000 | 31/03/1995 | Re TR111 | - | - |
| Horseshoe Cottage, Knollbury, Magor | 132,500 | 16/01/1998 | Re TR111 | - | - |
| Barecroft House, Barecroft Common, Magor | 158,500 | 10/05/1996 | Re TR111 | - | - |
| Cae-Glas and the Annex, Nash Road, Newport | 300,000 | 20/12/2006 | Re TR111 | - | - |
| Greenfield House, Nash Road, Newport | 300,000 | 23/03/2007 | Re TR111 | - | - |
| Berry Hill Farm | 1,050,000 (1) | 29/11/1996 | Inherited | - | - |
| Wentloog, Newport | 30,000 (1) | 27/03/1997 | Inherited | - | - |
| Queensway Meadows (including Tatton Farm), Newport | 2,170,000 (1) | 13-Oct-1980, 5-Jan-1981, 31-Mar-1981, 5-Jan-1982, 31-Mar-1994 & 31-Mar-2000 | Inherited | - | - |
| Site at Marshfield | 6,250 | 27/03/1997 | Inherited | - | - |
| Former LG site, includes Hynix & P&T | 13,000,000 (1) | 30/09/2004 | Other | - | - |
| Land south of the former LG site | 4,100,000 (1) | Unknown (2) | Other | - | - |
| Lower Lakes Farm, Nash | 170,000 | 31/01/1995 | Re TR111 | 135,000 | -35,000 |
| Pye Corner House, Nash | 120,000 | 17/04/1996 | Re TR111 | 178,000 | 58,000 |
| Ysgwbor Newydd, Coedkernew | 220,000 | 05/09/1996 | Re TR111 | 361,000 | 141,000 |
| Moorbarn House, Nash | 192,500 | 16/12/1996 | Re TR111 | 167,000 | -25,500 |
| The Maerdy, Coedkernew | 680,000 | 23/04/2003 | Re TR111 | 605,000 | -75,000 |
| Rose Cottage, Undy | 360,000 | 28/05/2010 | Re TR111 | 244,735 | -115,265 |
| Land at Traston Road | 500,000 | 28/03/2013 | Other | - | - |
| **Total** | **24,173,000** | | | **2,140,735** | **83,235** |

**Footnotes:**

1 The domestic dwellings acquired are disclosed at the price paid. The other properties acquired, including those inherited from predecessor bodies, are set out at their current valuation; information regarding the price paid was not available at the time of the audit review.

2 Confirmation is still being sought from the Welsh Government regarding the date of acquisition of the former LG site and associated properties.

3 There are three reasons for acquisition:

- Re TR111 - an application received from seller for blight/ discretionary purchase relating to previous M4 Relief Road;
- Inherited - property inherited from predecessor body; and
- Other - property which Welsh Government has confirmed was acquired for economic development purposes.

4 Surplus / deficit against the purchase price.